# Y Trydydd Cynulliad – Cyfarfod Llawn

## Pleidleisiau a Thrafodion (245)

**Dyddiad: Dydd Mercher 9 Chwefror 2011**
**Amser: 13.30**

### 13.30
### Eitem 1: Cwestiynau i'r Gweinidog dros y Gyllideb

Gofynnwyd y 9 cwestiwn cyntaf. Trosglwyddwyd cwestiwn 3 i'w ateb yn ysgrifenedig.

........................................

### 14.17
### Eitem 2: Cwestiynau i'r Gweinidog dros Dreftadaeth

Gofynnwyd y 10 cwestiwn cyntaf. Tynnwyd cwestiynau 6 a 9 yn ôl.

........................................

### 15.06
### Cwestiwn Brys

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y diwygiadau addysg a gyhoeddodd yr wythnos ddiwethaf?

........................................

### 15.25
### Eitem 3: Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad

Gofynnwyd y cwestiwn.

........................................

### 15.28
### Eitem 4: Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu ar Rôl Mentrau Cymdeithasol yn Economi Cymru

**NDM4659 Gareth Jones (Aberconwy)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu ar Rôl Mentrau Cymdeithasol yn Economi Cymru a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Tachwedd 2010.

Nodyn: Ymateb y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Chwefror 2011.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.**

........................................

**16.20**
## Eitem 5: Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

**NDM4658 Nick Ramsay (Mynwy)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r cynnydd a wnaed o dan y Cynllun Gweithredu Strategol i Gymru ar gyfer Anhwylderau yn y Sbectrwm Awtistig;

2. Yn mynegi pryder serch hynny nad yw nifer o bobl ag awtistiaeth a'u rhieni/gofalwyr yn dal yn cael y gefnogaeth y mae ei hangen arnynt, fel y dangoswyd yn adroddiad Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru 'Ein bywyd - ein dewis';

3. Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i adolygu'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau yn y Sbectrwm Awtistig er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon a godir yn 'Ein bywyd - ein dewis'.

*Mae copi o'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau yn y Sbectrwm Awtistig i'w weld yn:*

*http://cymru.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/publications/autisticspectrumdisorderplan/?skip=1&lang=cy*

*Mae copi o 'Ein bywyd - ein dewis' i'w weld yn:*

*http://www.autism.org.uk/cy-gb/get-involved/campaign-for-change/our-campaigns/the-life-we-choose.aspx*

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliant o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 17 | 0 | 31 | 48* |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

**Gwelliant 1 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Dileu pwynt 3 ac yn ei le rhoi:

3. Yn nodi y cytunwyd ar gyllid gwerth dros £2 filiwn ar gyfer 2011-12 i ddatblygu ymhellach y camau yn y Cynllun Gweithredu Strategol i Gymru ar gyfer Anhwylderau yn y Sbectrwm Awtistig; a

4. Yn nodi bod Llywodraeth Cynulliad Cymru ar hyn o bryd yn cynnal ei gwerthusiad ei hun o'r cynnydd a wnaed o ran y Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau yn y Sbectrwm Awtistig yn ystod ei ddwy flynedd gyntaf, y bydd y gwerthusiad hwn yn nodi meysydd y mae angen ehangu neu wella arnynt a rhoddir ystyriaeth i ganfyddiadau Adroddiad Cymdeithas

Genedlaethol Awtistiaeth Cymru, Ein bywyd - ein Dewis, wrth lunio’r adroddiad gwerthuso hwn.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 38 | 0 | 11 | 49* |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod llawer o’r cymorth sydd ei angen ar bobl gydag awtistiaeth, a’u rhieni/gofalwyr, yn cael ei gyllido drwy gyllidebau addysg, llywodraeth leol a chyfiawnder cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru, ac y byddai toriadau pellach i’r cyllidebau hyn yn cyfyngu’n sylweddol ar y gallu i gyllido cymorth i awtistiaeth.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 38 | 0 | 11 | 49* |

**Derbyniwyd gwelliant 2.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi’i ddiwygio:**

**NDM4658**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r cynnydd a wnaed o dan y Cynllun Gweithredu Strategol i Gymru ar gyfer Anhwylderau yn y Sbectrwm Awtistig;

2. Yn mynegi pryder serch hynny nad yw nifer o bobl ag awtistiaeth a'u rhieni/gofalwyr yn dal yn cael y gefnogaeth y mae ei hangen arnynt, fel y dangoswyd yn adroddiad Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru ‘Ein bywyd - ein dewis’;

3. Yn nodi y cytunwyd ar gyllid gwerth dros £2 filiwn ar gyfer 2011-12 i ddatblygu ymhellach y camau yn y Cynllun Gweithredu Strategol i Gymru ar gyfer Anhwylderau yn y Sbectrwm Awtistig; a

4. Yn nodi bod Llywodraeth Cynulliad Cymru ar hyn o bryd yn cynnal ei gwerthusiad ei hun o’r cynnydd a wnaed o ran y Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau yn y Sbectrwm Awtistig yn ystod ei ddwy flynedd gyntaf, y bydd y gwerthusiad hwn yn nodi meysydd y mae angen ehangu neu wella arnynt a rhoddir ystyriaeth i ganfyddiadau Adroddiad Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru, Ein bywyd - ein Dewis, wrth lunio’r adroddiad gwerthuso hwn.

5. Yn nodi bod llawer o’r cymorth sydd ei angen ar bobl gydag awtistiaeth, a’u rhieni/gofalwyr, yn cael ei gyllido drwy gyllidebau addysg, llywodraeth leol a chyfiawnder cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru, ac y byddai toriadau

pellach i’r cyllidebau hyn yn cyfyngu’n sylweddol ar y gallu i gyllido cymorth i awtistiaeth.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 38 | 11 | 0 | 49* |

**Derbyniwyd y cynnig wedi’i ddiwygio.**

**.......................................**

## 17.22
## Eitem 6: Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

**NDM4656 Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn croesawu penderfyniad Llywodraeth y DU i roi cymorth ariannol i bobl yn Lloegr a heintiwyd â hepatitis C ar ôl cael trallwysiadau gwaed halogedig.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddarparu cymorth ariannol tebyg i bobl yng Nghymru sydd mewn sefyllfa debyg.

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a’r gwelliant o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 16 | 0 | 33 | 49* |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Dileu’r cyfan ac yn ei le rhoi:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru

1. Yn nodi penderfyniad Llywodraeth y DU i ddarparu cymorth ariannol i bobl yn Lloegr a heintiwyd â hepatitis C ar ôl cael trallwysiadau gwaed halogedig.

2. Yn nodi bod Llywodraeth Cynulliad Cymru ar hyn o bryd yn ystyried Adolygiad Adran Iechyd y DU o’r cymorth sydd ar gael i unigolion a heintiwyd â hepatitis C a/neu HIV ar ôl cael trallwysiadau gwaed neu gynhyrchion gwaed a gyflenwir gan y GIG, ac i’w dibynyddion, ac mae’n ymgynghori â phartïon sydd â diddordeb.

*Mae copi o'r ddogfen gan Adran Iechyd y DU, sef "Review of the Support Available to Individuals Infected with Hepatitis C and/or HIV by NHS supplied Blood Transfusions or Blood Products and their Dependants" i'w weld yn:*

http://www.dh.gov.uk/en/Publicationsandstatistics/Publications/PublicationsPolicyAndGuidance/DH_123363

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 32 | 0 | 17 | 49* |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM4656**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru

1. Yn nodi penderfyniad Llywodraeth y DU i ddarparu cymorth ariannol i bobl yn Lloegr a heintiwyd â hepatitis C ar ôl cael trallwysiadau gwaed halogedig.

2. Yn nodi bod Llywodraeth Cynulliad Cymru ar hyn o bryd yn ystyried Adolygiad Adran Iechyd y DU o'r cymorth sydd ar gael i unigolion a heintiwyd â hepatitis C a/neu HIV ar ôl cael trallwysiadau gwaed neu gynhyrchion gwaed a gyflenwir gan y GIG, ac i'w dibynyddion, ac mae'n ymgynghori â phartïon sydd â diddordeb.

*Mae copi o'r ddogfen gan Adran Iechyd y DU, sef "Review of the Support Available to Individuals Infected with Hepatitis C and/or HIV by NHS supplied Blood Transfusions or Blood Products and their Dependants" i'w weld yn:*

http://www.dh.gov.uk/en/Publicationsandstatistics/Publications/PublicationsPolicyAndGuidance/DH_123363

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 32 | 6 | 11 | 49* |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

**......................................**

**18.05**
**Cyfnod pleidleisio**

**......................................**

**18.08**
**Eitem 7: Dadl Fer**

**NDM4657 Eleanor Burnham (Gogledd Cymru):** Yn Berffaith Iach? Byrddau Iechyd Lleol a Chyflenwi Gwasanaethau yn Effeithiol

**Daeth y cyfarfod i ben am 18.29.**

……………………………………

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30 ddydd Mawrth 15 Chwefror 2011**

**Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

***** ***Nid yw pleidleisiau Jane Davidson wedi'u cofnodi oherwydd nam technegol.***